



Ysgol Tryfan

Gorffennaf 12, 2016

Diwedd Tymor yr Haf 2016 yn Ysgol Tryfan

Annwyl Riant / Warcheidwad

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol arall brysur hoffwn dymuno'n dda i'n disgyblion a'u teuluoedd dros wyliau'r haf. Hoffwn hefyd ddiolch o galon i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Erbyn hyn mae disgyblion blynyddoedd 7 - 9 wedi derbyn adroddiad llawn ar eu cyrhaeddiad yn ystod y flwyddyn ac mae disgyblion blwyddyn 9 wedi derbyn eu Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Hefyd bydd disgyblion blynyddoedd 7 - 9 wedi cael adroddiad dwyieithog yn adrodd ar eu perfformiad yn y Profion Cenedlaethol Darllen (Cymraeg a Saesneg) a Rhif. Gan fod disgyblion blwyddyn 10 eisoes wedi derbyn adroddiad llawn y tymor diwethaf byddant yn awr yn derbyn adroddiad cryno gyda graddau cyrhaeddiad a'u targedau. Hyderaf y bydd pob disgybl yn elwa o'r adroddiadau am yr hyn a gyflawnwyd eleni - ac eto'n gallu gosod targedau clir ar gyfer cynnydd pellach y flwyddyn nesaf.

Hoffwn eich hysbysu fel rhieni y byddwn yn Ysgol Tryfan yn agor ein drysau i ddisgyblion eleni ar **ddydd Llun y pumed o Fedi 2016**. Rhennir y Calendr Ysgol yn llawn â chi ym mis Medi. Bydd y Calendr Ysgol hefyd wedi cael ei ddiweddarau'n fuan ar wefan yr ysgol - www.ysgoltryfan.org. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i'ch annog i ddilyn ein cyfrif Twitter (@ysgol_tryfan) er mwyn cael blas ar fywyd beunyddiol yr ysgol.

Hoffwn hefyd gadarnhau y bydd pris cinio ysgol yn aros yr un peth eleni ym mis Medi, gyda'r cinio llawn yn costio £2.40, prydau pasta yn costio £1.80 a'r tatws trwy'u crwyn/baguettes/paninis yn costio £1.50. Mae rhestr llawn o brisiau'r ffreutur ar gyfer Medi 2016 ar y dudalen Rhieni > Llythyrau i Rieni ar wefan yr ysgol.

Ar gychwyn gwyliau haf fel hyn, hoffwn hefyd erfyn arnoch fel rhieni i gydweithredu â ni fel ysgol a sicrhau fod eich plentyn yn dychwelyd atom ym mis Medi mewn gwisg ysgol gywir a chyflawn, gan gynnwys esgidiau du, ac na fydd ganddynt unrhyw dlysau amhriodol ac eithrio'r un 'styd' a ganiateir ym mhob clust. Y mae'r bartneriaeth gynhyrchiol hon rhwng yr ysgol a'r cartref yn allweddol i lwyddiant pob disgybl.

Cyn cloi hoffwn gadarnhau y bydd canlyniadau arholiadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn cael eu cyhoeddi ar fore lau Awst 18 o 8:00 y bore ymlaen. Bydd canlyniadau TGAU ar gael i flwyddyn 11 wythnos yn ddiweddarach ar ddydd lau Awst 25 am 8:00 unwaith eto. Mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 10 hefyd erbyn hyn yn disgwyl canlyniadau TGAU ac oherwydd hynny rydym yn gwahodd disgyblion blwyddyn 10 i ddod i'r ysgol i gael eu canlyniadau pe dymument. Bydd y canlyniadau ar gael i ddisgyblion blwyddyn 10 rhwng 10 o'r gloch y bore a 12.00 ar 25/08/16 er mwyn caniatáu i ni ddelio'n llawn gyda disgyblion blwyddyn 11 a'u hanghenion yn gyntaf. Bydd staff ar gael ar y dyddiau hyn i gynorthwyo ac i gynghori.

Felly hoffwn dymuno haf hir, diogel a heulog i chi - ac edrychaf ymlaen yn arw at weld y disgyblion i gyd yn ôl gyda ni yn Ysgol Tryfan ar y pumed o Fedi.

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth



Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎ 01248 352 633 ☎ 01248 361 264
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

